



MAE creaduriaid anferth, gan gynnwys cimwch o'r enw Larry yn dod i stryd fawr y dref.

Mae Cyngor Tref y Rhyl wedi datgelu ei raglen o ddigwyddiadau cymunedol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'n cynnwys gŵyl ar thema'r môr gyda'r cimwch mawr, gweithdai cerflunio tywod, peintio wynebau a cherddoriaeth fyw.

Bydd y digwyddiadau yn cychwyn ym mis Mawrth, gyda cherddoriaeth ar y stryd fawr ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi a chwingod ar ystudfachau ar ddydd Llun y Pasg, cyn i Seafest ddychwelyd i'r dref ym mis Mai.

Bydd gŵyl gerdd yn bywiogi'r dref yn ystod misoedd yr haf, a bydd cefn gwlad y Rhyl yn thema ym mis Medi.

Mwy/...



-2-

Bydd dangosiadau ffilm am ddim – sy'n cefnogi prosiectau digartrefedd yn y dref – yn dychwelyd ym mis Rhagfyr.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James: “Mae rhywbeth yn digwydd yn y Rhyl bron bob mis eleni. Mae'r cyngor yn cefnogi digwyddiadau mawrion, ond mae hefyd yn rhedeg ei raglen digwyddiadau cymunedol ei hun hefyd, nawr yn ei thrydedd blwyddyn.

“Bob tro, ein nod yw cynnig rhywbeth newydd, ac nid yw 2018 yn wahanol, gyda gweithgareddau a phrofiadau hynod am ddim yn yr arfaeth.

“Bydd teuluoedd yn cael rhoi cynnig ar wneud eu cerfluniau tywod bach ar y stryd fawr cyn mynd ar y traeth i ddefnyddio eu sgiliau newydd.

“Mae cimwch anferth, symudol o'r enw Larry – ein teyrnged ni i thema Blwyddyn y Môr Croeso Cymru, yn sicr o fod yn boblogaidd iawn, a byddwn hefyd yn gweld bandiau a cherddorion lleol yn arddangos eu talentau.”

Bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau ar y stryd fawr, gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n dod i'r dref.

“Mae'r cyngor yn cefnogi digwyddiadau mwy yn arena'r Rhyl, gan gynnwys y sioe awyr a'r gwyliau cerdd, ond mae'r digwyddiadau cymunedol hyn yn ein galluogi i daflu goleuni ar ardaloedd eraill hefyd.

“Mae ein rhaglen gymunedol ni yn un fywiog iawn a gwahanol, gan greu digwyddiadau a phrofiadau lliwgar am ddim i bobl leol a medrwn edrych ymlaen at flwddyn arall iawn,” ychwanegodd y Cynghorydd James.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, chwiliwch am @RhylTownCouncil ar Facebook a Twitter a @rhyltowncouncil ar Instagram.

Diwedd

